

Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Adroddiad Blynyddol Mawrth 2018

Er mwyn cwblhau adroddiad blynyddol ar gyfer yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), bu'n rhaid adolygu'r adran Meysydd i'w Gwella yn yr adroddiad. Ni fu unrhyw ddatblygiadau a/neu newidiadau sylweddol ers i'r ADGP gael ei lunio ym mis Mawrth 2017.

Bydd cynnydd hyd yma hefyd yn cael ei gofnodi o fewn y Cynllun Gweithredu ac yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r adroddiad.

Meysydd i'w Gwella

Archwiliad pellach o ofal plant ar oriau annodweddiadol – edrych ar ofal plant y tu allan i oriau ar gyfer rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol

Er mwyn ystyried gofal plant y tu allan i oriau i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, bu'n rhaid gwneud hyn yn flaenoriaeth yn y cynllun gweithredu. O fewn y cam gweithredu hwn, penderfynwyd ystyried datblygu cynllun gwarchod plant sy'n cynnig gofal plant hyblyg i rieni/gofalwyr. I gyflawni hyn, penderfynwyd hyrwyddo'r Cynllun Cymeradwyo Cartrefi yn y sesiwn friffio ymlaen llaw i warchodwyr plant i annog defnydd pellach a sicrhau bod isafswm o 10 gwarchodwr plant presennol yn cael eu recriwtio i'r cynllun. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy weithio gyda gwarchodwyr plant presennol i bennu eu diddordeb. Hyd yma, ni fu'n bosibl gwneud hyn oherwydd problemau staffio nad oedd modd eu hosgoi.

Darpariaeth Gymraeg – gweithio gyda Menter Bro Morgannwg, Ysgolion, Mudiad Meithrin a grwpiau Ti a Fi i edrych ar yr angen lleol am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Menter Bro Morgannwg yn ystyried y posibilrwydd o greu meithrinfa ddydd Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn y Barri. Mae'r gwaith ar gam cynnar iawn a bydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae Menter Bro Morgannwg wedi cwblhau holiadur ar-lein yn ddiweddar wedi'i anelu at rieni/darpar rieni yn ymwneud â'r angen am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg i bant 0-5 oed ym Mro Morgannwg.

Roedd yr holiadur yn gofyn cyfres o gwestiynau, gan gynnwys a fyddai rhieni neu ddarpar rieni yn defnyddio meithrinfa ddydd Gymraeg, pa mor aml y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth, pwysigrwydd cael meithrinfa ddydd Gymraeg yn y Fro ac ati. Cafwyd cyfanswm o **317** o ymatebion ac roedd y sylwadau'n cynnwys 'syniad gwych, dechrau naturiol i addysg Gymraeg', 'fel teulu sy'n siarad Cymraeg, mae'n siomedig nad oes meithrinfa Gymraeg ar gael ar hyn o bryd', 'Mae wir angen hyn yn y Fro' ac ati.

Mae cyfarfod rhwng cydweithwyr yn y Cyngor a Menter Bro Morgannwg i drafod canlyniadau'r ddogfen ymgynghori a'r camau nesaf wrthi'n cael ei drefnu. Mae darparwyr gofal plant wedi ceisio cynnig gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gorffennol, ond yn

anffodus ni fu hyn yn llwyddiannus, ac maent nawr yn cynnig gwasanaeth meithrinfa dwyieithog yn lle hynny. Felly, bydd yn hanfodol i swyddogion y Cyngor a sefydliadau allanol, h.y. Menter Bro Morgannwg a Mudiad Meithrin, edrych ar yr opsiynau, gan ystyried y gofal plant presennol yn yr ardal i sicrhau na fydd gofal plant presennol yn cael ei ddisodli. Bydd hefyd o fudd cael adborth gan y darparwyr gofal plant hynny sydd wedi ceisio sefydlu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gorffennol.

Gofal plant/clybiau gweithgareddau y tu allan i'r ysgol i blant 10-14 oed. Ystyrir hyn gyda chynghorau ysgolion cyfun i bennu'r math o ofal plant/clwb gweithgareddau gwyliau y byddai myfyrwyr yn eu mynychu yn ystod y gwyliau ysgol.

Oherwydd cyfyngiadau amser a diffyg staff, mae wedi bod yn anodd cyflawni'r maes gwella hwn eleni. Fodd bynnag, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr a phartneriaid i weithredu yn barod ar gyfer y gwyliau haf.

Recriwtio nanis cymeradwy drwy gynnig y Cynllun Cymeradwyo Cartrefi i ddarpar warchodwyr plant fel dewis amgen, ac ystyried ffyrdd eraill o hyrwyddo'r cynllun.

Bu'n bosibl recriwtio 7 gwarchodwr plant cofrestredig ar gwrs CYPOP5 a'u cofrestru i gynnig gofal plant y tu allan i oriau i bob pwrpas a/neu gwnaethant ddangos diddordeb mewn cofrestru ar y Cynllun Cymeradwyo Cartrefi. Disgwylir i'r cwrs gael ei gwblhau ganol mis Mawrth.

Edrych ar nifer y plant ag anghenion arbennig sy'n mynychu gofal plant. A yw hyn oherwydd diffyg galw neu gan nad yw'r lleoliadau'n gallu cynnig gofal plant?

Fel y nodir yn y diweddariad i'r Cynllun Gweithredu, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda theuluoedd yn y Sunshine Club, Cynlluniau Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf, Cwtsh y Barri a thrwy'r Mynegai. Mae adroddiad llawn wedi'i lunio ac allan o'r 20 o rieni a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, dywedodd 12 rhiant (60%) eu bod wedi cael trafferth dod o hyd i ofal plant i fodloni anghenion eu plentyn ac nid oedd angen gofal plant ar yr 8 arall/nid oeddent wedi ceisio dod o hyd i ofal plant. Ni wnaeth 2 drafod eu sefyllfa, roedd 3 wedi penderfynu rhoi'r gorau i weithio, roedd 1 yn ofalwr maeth, roedd 1 yn newydd i'r ardal ac felly heb ddechrau chwilio ac roedd 1 yn athro.

I gasglu, roedd 100% o'r rhieni a oedd wedi chwilio am ofal plant wedi cael trafferth oherwydd bod gan eu plentyn anghenion ychwanegol. Nid oedd rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn gadael eu plentyn mewn lleoliad, neu ni allai'r lleoliad ymdopi ag anghenion y plentyn. Dim ond 4 rhiant (20%) sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd, a gwnaeth pob un ohonynt gael trafferth yn dod o hyd i ofal plant: mae 1 yn defnyddio clwb brecwast ysgol, mae 1 yn defnyddio gwarchodwr plant y mae'n ei nabod yn bersonol, mae 1 yn defnyddio meithrinfa ddydd ac mae 1 yn defnyddio cynllun gofal gwyliau drwy'r Cynllun Cymorth Lleuedd. Mae 3 yn defnyddio gofal plant gan eu bod yn gweithio. Mae'r 3 rhiant arall sy'n gweithio yn

gweithio o amgylch eu plant – mae un yn gweithio shifftiau, un yn hunangyflogedig ac un yn athro. Dywedodd 4 rhiant eu bod wedi rhoi'r gorau i weithio i ofalu am eu plentyn.

O ran y wybodaeth sy'n cael ei rhoi i rieni am leoliadau gofal plant, roedd pawb yn teimlo bod angen gwybodaeth fanylach i gyflwyno proffil y lleoliad yn well a'r profiad y mae staff yn ei gael, gan roi enghreifftiau.

Mae'n amlwg bod angen gwneud gwaith pellach gyda darparwyr gofal plant a phartneriaid ehangach i gefnogi rhieni/gofalwyr sydd â phlant ag anabledau a/neu anghenion dysgu ychwanegol y mae angen gofal plant arnynt. Gwnaed rhai awgrymiadau, gan gynnwys ystyried 'nod ansawdd' y gall pob darparwr gofal plant weithio tuag ato, gweithio gyda darparwyr gofal plant i wella'r wybodaeth y maent yn ei rhoi i rieni/gofalwyr ac ati. Bydd gweithgor bach yn edrych ar y canfyddiadau'n fanylach ac yn cynnig ffordd ymlaen.

Annog lleoliadau gofal plant i gwblhau data SASS a gweithio gydag AGC (AGGCC yn flaenorol) i roi canllaw ar sut i'w gwblhau'n gywir.

Lluniodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd gylchlythyron rheolaidd a oedd yn cynnwys cymorth SASS wedi'i ddarparu gan Sefydliadau Ymbarél. Gallai'r GGiD hefyd roi cyngor dros y ffôn a/neu gynnig atgyfeiriadau at sefydliadau perthnasol i'r rheini nad oeddent yn gallu mynychu unrhyw weithdai a ddarparwyd gan Sefydliadau Ymbarél.

Cynigiwyd cymorth gan gydlynedd y rhwydwaith Gwarchod Plant hefyd a Swyddog Monitro Blyneddod Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg. Ni chafwyd llawer o geisiadau am gymorth.

Gweithio gydag AGC i wella a chwtdogi'r holiadur rhieni i annog ymatebion

Mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru y cyfarfod AWARE diwethaf ym mis Ionawr 2018 lle rhoddwyd adborth ar yr ADGP llawn. Anfonir adborth unigol i'r Awdurdod Lleol ym mis Chwefror 2018.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr holiadur rhieni a sut y gellid ei ddiwygio i adlewyrchu'r syniadau a'r meddyliau a drafodwyd. Cytunwyd bod sawl agwedd i'r holiadur nad oedd yn bwysig ar gyfer cwblhau'r ADGP, felly byddent yn cael eu hystyried yn barod i Awdurdodau Lleol gwblhau eu ADGP llawn nesaf.

Gyda Chynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno i awdurdodau lleol yn 2020, mae angen ystyried argaeledd a chynaliadwyedd darpariaeth gyda darparwyr gofal plant ymhellach. Hefyd, bydd angen ymchwilio i waith ymgynghori gydag ysgolion i bennu a oes ganddynt y capasiti i gynnig darpariaeth gofal plant.

Trefnwyd a chynhaliwyd digwyddiad ym mis Chwefror 2018 ym Mro Morgannwg ar gyfer Penaethiaid a darparwyr gofal plant i gasglu gwybodaeth am y cynnig gofal plant 30 awr.

Daeth 89 o bobl gyda'r rhan fwyaf yn ddarparwyr gofal plant. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar y cynnig, at bwy y mae wedi'i anelu ac ati, a rhoddodd gweithredwyr

cynnar y cynnig – Rhondda Cynon Taf a Chaerffili – gyflwyniadau ar sut maent wedi'i sefydlu yn eu hawdurdodau nhw. Roedd cyfle i gynrychiolwyr ofyn cwestiynau a lleisio pryderon.

Yn dilyn y digwyddiad, mae'r Fro wedi llunio cynllun ar y camau nesaf, gyda threfniadau ar waith i ymweld ag awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar, ymweld â rhai lleoliadau gofal plant lle maent yn gweithio a chreu grŵp llywio ymysg pethau eraill. Bydd sesiynau ymgynghori pellach yn cael eu trefnu ar gyfer darparwyr gofal plant i bennu eu diddordeb mewn bod yn ddarparwr, a chaiff grwpiau ffocws rhieni eu trefnu i bennu diddordeb.

Debbie Maule

Cyngor Bro Morgannwg